CYNGOR CAERDYDD
CARDIFF COUNCIL

# POLISI ENWI STRYDOEDD

# STREET NAMING POLICY

HYDREF 2018
OCTOBER 2018

CARDIFF
CAERDYDD

**TABL CYNNWYS**

**1 Cyflwyniad........................................................................................... 2**

1.1 Datganiad Polisi.......................................................................................... 2

1.2 Ystyriaethau'r Gymraeg................................................................................ 2

1.3 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol....................................................... 3

1.4 Pwysigrwydd Enwi a Rhifo Strydoedd......................................................... 3

1.5 Pwy sydd yn gyfrifol am Enwi a Rhifo Strydoedd? .................................. 4

**2 Enwi a Rhifo Strydoedd – Canllaw i Ymgeiswyr...................................... 4**

2.1 Pryd i Ymgeisio............................................................................................ 4

2.2 Sut i Ymgeisio a Chostau.............................................................................. 5

**3 Enwi a Rhifo Strydoedd ar gyfer Datblygiadau Newydd......................... 5**

3.1 Egwyddor Gyffredinol.................................................................................. 5

3.2 Defnydd ar Enwau Marchnata Answyddogol............................................... 5

3.3 Themâu a Argymhellir.................................................................................. 6

**4 Cymeradwyo Cynlluniau Enwi a Rhifo Strydoedd.................................. 7**

4.1 Enwau Strydoedd......................................................................................... 7

4.2 Trefn Rhifo Eiddo......................................................................................... 10

4.3 Canolfannau Siopa, Parciau Manwerthu ac Ystadau Diwydiannol............. 10

4.4 Rhoi Cyfeiriadau Newydd ar Waith............................................................. 11

4.5 Ychwanegu Enw at Eiddo â Rhif sy'n Bod yn Barod................................... 11

4.6 Ail-enwi Eiddo â Rhif sy'n Bod yn Barod.................................................... 12

4.7 Addasu Adeilad sy'n Bod yn Barod.............................................................. 12

4.8 Ail-enwi Stryd ar Gais Preswylwyr.............................................................. 12

4.9 Ail-rifo eiddo/adeiladau neu ail-enwi stryd sy'n bod yn barod.................... 12

4.10 Hysbysiadau ar Wybodaeth am Gyfeiriadau i Bartneriaid Mewnol ac Allanol 13

**5 Cyngor Caerdydd- Y Rhestr Gyfeiriadau Gorfforaethol.................... 13**

**Atodiadau**

**1 Map o Ffiniau Canol Caerdydd a Bae Caerdydd......................................... 15**

# 1 Cyflwyniad

## 1.1 Datganiad Polisi

1.1.1. Nod y ddogfen hon yw cynnig cyngor ac arweiniad i ddatblygwyr a pherchnogion eiddo presennol ynghylch polisi Enwi a Rhifo Strydoedd Cyngor Caerdydd (“Y Cyngor”).

1.1.2. Mae enwi a rhifo strydoedd ac eiddo yng Nghaerdydd wedi ei reoli gan y Cyngor dan ddarpariaethau Deddf Iechyd y Cyhoedd 1925 – Adrannau 17 i 19 (enwi Strydoedd a Newid a Dangos Enwau Strydoedd).

1.1.3. Diben y rheolaeth hon yw sicrhau fod dyroddi enwau strydoedd ac eiddo newydd neu ddiwygiedig a/neu rifau yn rhesymegol ac yn cael eu gweithredu mewn modd cyson.

1.1.4 Mae i enwi a rhifo strydoedd nifer o swyddogaethau pwysig, er enghraifft, canfod y ffordd, dosbarthu post yn effeithiol a sicrhau y gall y gwasanaethau brys ddarganfod eiddo yn gyflym.

1.1.5 Mae enwi strydoedd hefyd yn elfen allweddol o greu lleoedd, ac mae’n bwysig yng nghyd-destun ymrwymiadau’r Cyngor i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol a Safonau’r Gymraeg.

1.1.6 Yn hanesyddol mae’r Cyngor wedi gweithredu’r safonau canlynol parthed enwi strydoedd:

- Yng nghanol y ddinas, prif wybrau i ganol y ddinas ac ardal Bae Caerdydd (gweler Atodiad 1 Map Ffiniol), enwir strydoedd yn ddwyieithog gyda’r Gymraeg a’r Saesneg ar blatiau enwau strydoedd. Mae cynsail hanesyddol i’r ymagwedd hon a’r egwyddor arweiniol yw mai strydoedd a rennir yw’r strydoedd rhain, o’u cymharu â strydoedd sy’n strydoedd preswyl yn unig yn y ddinas. Mae hyn yn cadw’n gyson â mannau cyhoeddus eraill a rennir sydd dan reolaeth y Cyngor megis parciau ac adeiladau cyhoeddus ac mae’n caniatáu preswylwyr i lywio drwy strydoedd prysuraf y ddinas yn unol â’u dewis iaith.
- Y tu allan i’r ardal hon, does dim rheidrwydd i enwau strydoedd fod yn ddwyieithog.

1.1.7 Mae ymrwymiad gan y Cyngor i sicrhau ei fod yn gweithio tuag at ddefnydd cydradd rhwng enwau strydoedd Cymraeg ac enwau strydoedd Saesneg ar draws y ddinas. Bydd enwau strydoedd yn cael eu monitro.

## 1.2 Ystyriaethau’r Gymraeg

1.2.1. Gan mai hawl y Cyngor yw pennu enwau strydoedd newydd, mae’n cydnabod pwysigrwydd ystyried y farn leol. Y polisi parthed enwau strydoedd newydd felly fydd mabwysiadu enw Cymraeg sy’n gydnaws a threftadaeth a hanes lleol yr ardal. Bydd hyn yn datrys problemau cyfieithu Saesneg i Gymraeg a Chymraeg i Saesneg ar gyfer enwau strydoedd ac enwau strydoedd heb gefndir na chyd-

destun. I sicrhau bod ymchwil drylwyr yn cael ei gwneud i enw stryd priodol, bydd y Cyngor yn defnyddio arbenigedd academaidd allanol fel rhan o Banel Enwi Llefydd/Strydoedd Cymraeg Caerdydd Ddwyieithog wrth benderfynu ar enwau newydd. Bydd angen penderfynu ar enwau yn unol â gweithdrefnau llywodraethu'r Cyngor

1.2.2. Ac eithrio'r strydoedd hynny a ystyrir gan y Cyngor fel rhai 'dwyieithog' o dan 1.1.6, ni fydd newid i enwau strydoedd sy'n bod eisoes a bydd y rhain yn aros yn yr iaith 'wybyddus' i atal unrhyw gamddealltwriaeth posib.

1.2.3. Mae cyfrifoldebau statudol a grymoedd gan y Cyngor i gynnal rhestrau cywir wedi eu diweddaru o enwau trefi, pentrefi, cymunedau a wardiau yn ogystal â datblygiadau newydd. Ym mhob achos, bydd y Cyngor yn sicrhau fod y rhestrau o safon uchel a bydd yn cynnal archwiliad o'r rhestr a gynhelir ganddo er mwyn sicrhau safoni lle bo angen.

1.2.4 Bydd unrhyw enwau strydoedd dwyieithog yn arddangos y Gymraeg uwch ben y Saesneg pan fydd angen arwyddion newydd neu adnewyddu hen rai.

**1..3 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**

1.3.1. Nod Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'n sefydlu saith nod llesiant cenedlaethol, gan gynnwys 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu'. Bydd sicrhau fod enwi strydoedd yng Nghaerdydd yn adlewyrchu'r dreftadaeth leol, gydag enwau ar gyfer datblygiadau sydd yn hanesyddol, yn ddiwylliannol ac yn ieithyddol gysylltiedig, yn chware rhan bwysig wrth gyflawni'r nod llesiant hwn.

**1.4 Pwysigrwydd Enwi a Rhifo Strydoedd**

1.4.1. Mae enwi a rhifo stryd yn caniatáu hunaniaeth unigryw i gael ei neilltuo i stryd ac yn sgil hynny unrhyw eiddo cysylltiedig y gellir mynd iddo o'r stryd.

1.4.2. Mae cofrestru eiddo yn dod yn fater cynyddol bwysig. Mae cynnal safon uchel, cyson a chynhwysfawr ar gyfer enwi strydoedd ac enwi a rhifo eiddo yn hanfodol am ei fod yn galluogi:

Y Gwasanaethau Brys i ddarganfod eiddo yn gyflym – gall oedi olygu colli bywyd ac arian

Dosbarthu'r post yn effeithiol

Ymwelwyr i ganfod eu cyrchfan

Dosbarthiad dibynadwy ar wasanaethau a nwyddau

Cofnodion darparwyr gwasanaeth i'w cadw mewn modd effeithiol

Cwmnïau i dderbyn cyfeiriad at ddibenion swyddogol er mwyn darparu gwasanaethau telegyfathrebu, yswiriant, bancio, statws credyd a chyffelyb.

Dylid cyfeirio at Bolisi KP5 y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl): Dylunio Cynaliadwy o Ansawdd Da, sy'n amlinellu'r gofynion ar gyfer datblygiadau newydd parthed eglurder a chreu lleoedd, er mwyn sicrhau eu bod yn gwneud "cyfraniad cadarnhaol at greu cymunedau, lleoedd a gofodau hynod" (CDLl 2006 – 2026 t.64). Mae Canllaw Dylunio Preswyl Caerdydd CCA (Ionawr 2017) hefyd yn nodi mewn manylder y materion y dylasai dyluniad ar gyfer datblygiad preswyl newydd yng Nghaerdydd fynd i'r afael â nhw wrth geisio ennill caniatâd cynllunio.

### 1.5 Pwy sydd yn gyfrifol am Enwi a Rhifo Strydoedd?

1.5.1. Mae cyfrifoldebau a grymoedd statudol gan Gyngor Dinas Caerdydd ("Y Cyngor"), yng nghyd-destun deddfwriaeth fabwysiedig, dros enwi strydoedd, newid enwau strydoedd a dangos enwau strydoedd. Mae grymoedd ychwanegol yn ôl disgresiwn gan y Cyngor hefyd i roi rhif neu enw ar eiddo.

1.5.2. Dylid nodi nad oes cyfrifoldebau statudol na grymoedd gan y Post Brenhinol i enwi stryd nac i enwi, rhifo, ail-enwi neu ail-rifo eiddo.

1.5.3. Y Post Brenhinol yn unig sydd a chyfrifoldeb dros ddynodi cod post yn dilyn cydgysylltu a derbyn hysbysiad am gyfeiriad newydd neu ddiwygiedig gan y Cyngor.

1.5.4. Mae'r cyngor fel yr awdurdod enwi a rhifo statudol yn cyflawni gwiriadau priodol ar y Rhestr Gyfeiriadau Gorfforaethol ac ymgynghori ehangach a chydgysylltu â'r Post Brenhinol sydd yn gyfrifol am y Ffeil Cyfeiriadau Cod Post (FfCCP) parthed eiddo newydd a/neu enwau strydoedd. Mae hyn yn lleihau'r posibilrwydd o ddyblygu posib a chamddealltwriaeth ac yn sicrhau y mabwysiedir ymagwedd gyson a diamwys ledled Caerdydd.

## 2 Enwi a Rhifo Strydoedd – Canllaw i Ymgeiswyr

### 2.1. Pa bryd i Ymgeisio

2.1.1. Dylai ceisiadau gwasanaethau Enwi a Rhifo Strydoedd gael eu gwneud gan:

- Unigolion neu sefydliadau sy'n dymuno ychwanegu enw i eiddo sy'n bod eisoes â rhif yn unig
- Unigolion neu sefydliadau sy'n dymuno ail-enwi eiddo ag enw sy'n bod eisoes
- Unigolion neu ddatblygwyr yn adeiladu eiddo newydd sy'n cynnwys eiddo preswyl newydd, safleoedd masnachol, unedau diwydiannol a chyffelyb
- Unigolion neu ddatblygwyr sy'n dymuno diwygio gosodiad datblygiadau newydd sydd eisoes wedi myn drwy'r broses enwi a rhifo ffurfiol
- Unigolion neu ddatblygwyr sy'n addasu eiddo sy'n bod eisoes a fyd yn arwain at greu eiddo preswyl neu eiddo busnes newydd. Bydd hyn yn cynnwys adeiladu sy'n bod eisoes sy'n cael eu rhannu'n fflatiau neu swyddfeydd, ysguboriau yn cael eu haddasu'n breswylfeydd a rhannu unedau masnachol

- Preswylwyr sy'n dymuno ail-enwi stryd
- Unigolion a busnesau sy'n dymuno cadarnhau cyfeiriad

2.1.2. Dylai ymgeiswyr ymgynghori â'r Cyngor ar y cyfle cyntaf posib er mwyn osgoi oedi posib. Dylid cyflwyno ceisiadau cyn gynted ag y bo modd yn dilyn rhoi'r caniatâd cynllunio ffurfiol a/neu gymeradwyaeth rheoliadau adeiladu ar gyfer y cynnig.

**2.2 Sut i Wneud Cais a Chostau**

2.2.1 Dylid gwneud ceisiadau ar-lein yma https://priffyrddcaerdydd.startraqdome.com/login/new. Bydd angen i ymgeiswyr gofrestru ar y system ac yna dewis "Enwi Strydoedd a Rhifo" yn y gwymplen.

2.2.2. Rhaid i bob cais am wasanaethau Enwi a Rhifo Strydoedd gynnwys cynllun lleoliad i raddfa briodol (i raddfa heb fod yn llai na 1:1250) ac yn achos datblygiadau newydd, cynllun gosodiad yn dynodi rhifau plot a safle'r eiddo parthed yr amgylchoedd daearyddol.

2.2.3 Mae taliadau am wasanaethau Enwi a Rhifo Strydoedd wedi eu seilio ar nifer y strydoedd, blociau, unedau a lloriau mewn datblygiad. I weld y taliadau priodol, gweler https://www.cardiff.gov.uk/CYM/preswylydd/Parcio-Ffyrdd-a-Theithio/Enwi-a-rhifo-strydoedd/Pages/default.aspx.

## 3 Enwi a Rhifo Strydoedd ar gyfer Datblygiadau Newydd

**3.1 Egwyddor Gyffredinol**

3.1.1. Mae cefndir hanesyddol sylweddol i Gaerdydd ac felly er mwyn gwarchod yr etifeddiaeth hon, bydd ffafriaeth yn cael ei roi i gynlluniau enwi sydd yn meddu ar gyd-destun hanesyddol a lleol. Mae'r panel enwi gan y Cyngor yn cynnig arbenigedd allanol i hwyluso, cynghori ac awgrymu dewisiadau ar gyfer pob mater yn ymwneud ag enwi ar ddatblygiadau newydd (gweler hefyd 1.2.1).

3.1.2. Os na ellir sefydlu cyswllt hanesyddol uniongyrchol â'r darn o dir i'w ddatblygu yna fe edrychir ar ardaloedd cyfagos am syniadau.

3.1.3. Os na ellir pennu unrhyw gyd-destun hanesyddol neu leol, a bod y datblygiad arfaethedig yn cynnwys rhwydwaith o strydoedd neu adeiladau, gellir argymell thema. Eto, dylid cymryd gofal i sicrhau fod unrhyw thema arfaethedig yn ateb protocolau'r ddogfen hon.

**3.2 Defnydd ar Deitlau Marchnata Answyddogol**

3.2.1. Ni fydd y Cyngor yn mabwysiadu teitlau 'marchnata' neu themâu a ddefnyddir gan ddatblygwyr ar gyfer gwerthu eiddo newydd, oni bai fod cyd-destun

hanesyddol neu leol wedi ei sefydlu rhag blaen (gweler hefyd 2.1.1). Mewn achosion felly caiff y thema a gytunwyd ei mabwysiadu fel sail i'r cynllun enwi stryd a gymeradwywyd.

3.2.2. Ni chaniateir mabwysiadu teitlau 'marchnata' i greu lleoliadau deniadol 'answyddogol' neu enwau pentrefi.

3.2.3. Byddai'n ddoeth felly i ddatblygwyr fod yn ofalus yn eu defnydd ar enwau datblygiadau i ddibenion marchnata os nad yw'r enw wedi ei gytuno rhag blaen.

3.2.4. Dylid hefyd nodi yn y llenyddiaeth a ddosberthir i ddarpar brynwyr fod unrhyw enwau marchnata yn amodol ar gymeradwyaeth ac y gallent felly newid.

### 3.3. Themâu Arfaethedig

3.3.1. Dylai datblygwr sydd yn cynnig thema ar gyfer datblygiad newydd felly ystyried y canlynol:

- Rhaid i'r stryd neu enw(au) adeilad a awgrymir fod â chyd-destun hanesyddol neu leol dilys a chyswllt uniongyrchol â'r safle datblygu neu'r cyffiniau.

- Gall enwi strydoedd neu adeiladau ar ôl unigolion penodol fod yn fater goddrychol braidd. Y polisi felly fydd cynnwys enw person, boed fyw neu farw, mewn cynlluniau enwi cymeradwy dim ond os gellir dangos cyswllt hanesyddol neu etifeddol priodol

- Yr unig eithriad fyd yn yr achosion hynny lle cyfeirir at leoliadau daearyddol yn ôl enwau priod h.y. Parc Kimberley, Coed John ayb. Ni fydd y cynllun enwi stryd neu eiddo yr un fath neu'n debyg i unrhyw enwau sy'n bodoli eisoes yng Nghaerdydd i osgoi dryswch posib

- Lle na ellir sefydlu unrhyw gyd-destun lleol a bod rhwydwaith o strydoedd neu adeiladau am gael eu creu, gall y datblygwr gyflwyno awgrym o thema, ynghyd â rhesymau priodol, i gael eu hystyried

- Dylid osgoi enwau stryd neu adeiladau sy'n esthetaidd anaddas, er enghraifft Gaswork Road, Tip House, cyfeiriadau at Twll a Tomen/Domen ayb. Dylid osgoi darpar enwau stryd neu adeilad y gellir eu camddehongli'n fwriadol, er enghraifft Hoare Road, Typple Avenue, Quare Street ayb. Pan fo rhesymau hanesyddol cymhellol dros gadw neu gynnwys elfen o'r fath mewn enw stryd, rhaid sicrhau cytundeb ar briodoldeb hyn mewn ymgynghoriad gyda'r panel enwi

- Ni chaiff enwau stryd neu adeilad y gellid eu hystyried eu bod yn groes i Ddeddf Cydraddoldeb 2010 neu eu hystyried yn dramgwyddus neu anweddus eu derbyn o dan unrhyw amgylchiadau

- Os yn bosib, dylid osgoi enwau atodol (e.e. galw rhes o adeiladau sydd eisoes ar stryd ag iddi enw yn '...Teras').

<u>**Cymeradwyo Cynlluniau Enwi a Rhifo**</u>

**4.1 Enwau Strydoedd**

4.1.1. Dylai'r holl enwau strydoedd newydd ddechrau gydag un o'r rhagddodiaid canlynol yn achos cyfieithiadau Cymraeg (ôl-ddodiad yn achos cyfieithiadau Saesneg) a'u defnyddio yn y cyd-destun canlynol, fodd bynnag, nid yw hon yn rhestr gyflawn ac mewn amgylchiadau eithriadol gellir caniatáu dewisiadau amgen.

| Rhagenw | Cyfieithiad Saesneg | Ystyr |
|---|---|---|
| Heol | Road | unrhyw brif ffordd neu dramwyfa |
| Rhodfa / Coedlan | Avenue | unrhyw ffordd neu dramwyfa |
| Rhodfa | Drive | unrhyw ffordd neu dramwyfa |
| Stryd / Heol | Street | unrhyw ffordd neu dramwyfa |
| Ffordd / Heol | Way | unrhyw ffordd neu dramwyfa |
| Llwyn | Grove | ffyrdd preswyl |
| Stablau | Mews | ffyrdd preswyl |
| Plas / Maes | Place | ffyrdd preswyl |
| Tai | Villas | ffyrdd preswyl |
| Gerddi | Gardens | Ffyrdd preswyl (gyhyd nad oes dryswch gyda man lleol agored) |
| Clos | Close | ffordd bengaead yn unig |
| Cwrt / Llys | Court | ffordd bengaead a blociau preswyl yn unig |
| Pen | End | ffordd bengaead yn unig |
| Cylch | Circle | ffyrdd sydd â'r un man cychwyn a therfyn |
| Cilgant | Crescent | ffordd a siâp cilgant |
| Sgwâr | Square | ar gyfer sgwâr yn unig |
| Teras / Rhodfa | Terrace | teras o dai |
| Bryn / Rhiw | Hill | ffordd ar fryn yn unig |
| Crib | Ridge | ffordd ar fryn yn unig |
| Rhiw / Tyle | Rise | ffordd ar fryn yn unig |
| Rhes / Stryd | Row | ffyrdd preswyl mewn amgylchiadau priodol |
| Bro / Glyn | Vale | ffyrdd preswyl mewn amgylchiadau priodol |
| Golwg | View | ffyrdd preswyl mewn amgylchiadau priodol |

| | | |
|---|---|---|
| Comin | Common | ffyrdd preswyl mewn amgylchiadau priodol |
| Rhodfa | Parade | ffyrdd preswyl mewn amgylchiadau priodol |
| Parc | Park | ffyrdd preswyl mewn amgylchiadau priodol |
| Trem | Reach | ffyrdd preswyl mewn amgylchiadau priodol |
| Lôn / Lôn Gefn | Lane | unrhyw ffordd neu dramwyfa mewn ardal wledig (neu mewn amgylchiadau priodol) |
| Dôl | Meadow | unrhyw ffordd neu dramwyfa mewn ardal wledig |
| Dôl | Mead | fel dewis amgen i'r uchod |
| Coedlan / Glyn | Dene | ffyrdd sydd â chyswllt hanesyddol â glyn coediog |
| Glanfa | Wharf | ffyrdd sy'n gyfochrog neu gerllaw dyfrffyrdd |
| Cylchfan | Circus | cylchfan fawr |
| Ffordd / Rhodfa | Walk | llwybrau cerddwyr |
| Llwybr | Path | llwybrau cerddwyr |
| Llwybr Troed | Footpath | llwybrau cerddwyr |
| Rhandy | Annexe | datblygiad sengl |
| Pont | Bridge | mewn amgylchiadau priodol |
| Ffordd Osgoi | Bypass | ffyrdd mewn amgylchiadau priodol |
| Cornel | Corner | ffyrdd mewn amgylchiadau priodol |
| Cwrs | Course | ffyrdd mewn amgylchiadau priodol |
| Crib | Crest or Ridge | ffyrdd mewn amgylchiadau priodol |
| Croesfan | Crossing | ffyrdd mewn amgylchiadau priodol |
| Pant | Dale | ffyrdd mewn amgylchiadau priodol |
| Ystâd | Estate | mewn amgylchiadau priodol |
| Ffordd Gyflym | Expressway | ffyrdd mewn amgylchiadau priodol |
| Cae | Field | ffyrdd mewn amgylchiadau priodol |
| Gwastatir | Flats | mewn amgylchiadau priodol |
| Rhyd | Ford | ffyrdd mewn amgylchiadau priodol |
| Coed (or Coedwig) | Forest | mewn amgylchiadau priodol |
| Gardd (or Gerddi) | Garden(s) | mewn amgylchiadau priodol |

| | | |
|---|---|---|
| Porth | Gateway or Port | mewn amgylchiadau priodol |
| Lawnt (or Clwt) | Green | mewn amgylchiadau priodol |
| Llwyn or Gelli | Grove | mewn amgylchiadau priodol |
| Harbwr | Harbour | mewn amgylchiadau priodol |
| Trum | Heights | mewn amgylchiadau priodol |
| Ynys | Isle or Island | mewn amgylchiadau priodol |
| Cnwc | Knoll or Hillock | mewn amgylchiadau priodol |
| Loc | Lock | mewn amgylchiadau priodol |
| Porthordy (or Porthdy or Caban) | Lodge | mewn amgylchiadau priodol |
| Maenor (Maenordy) | Manor | mewn amgylchiadau priodol |
| Melin | Mill | mewn amgylchiadau priodol |
| Mynydd | Mount | mewn amgylchiadau priodol |
| Perllan | Orchard | mewn amgylchiadau priodol |
| Trosffordd | Overpass | mewn amgylchiadau priodol |
| Parcffordd | Parkway | mewn amgylchiadau priodol |
| Tramwyfa | Passage | mewn amgylchiadau priodol |
| Tyrpeg (or Tollborth) | Turnpike (or Pike) | mewn amgylchiadau priodol |
| Pinwydd | Pines | mewn amgylchiadau priodol |
| Trwyn (or Penrhyn) | Point or Peninsula | mewn amgylchiadau priodol |
| Gorffwysfa | Rest | mewn amgylchiadau priodol |
| Glan | Shore | mewn amgylchiadau priodol |
| Ffynnon /Ffynhonnau | Well(s) | mewn amgylchiadau priodol |
| Esgair | Spur (of hill/mountain) | mewn amgylchiadau priodol |
| Copa | Summit | mewn amgylchiadau priodol |
| Tanffordd | Underpass | mewn amgylchiadau priodol |
| Traphont | Viaduct | mewn amgylchiadau priodol |
| Golygfa | Vista | mewn amgylchiadau priodol |
| Golwg (or Trem) | View | mewn amgylchiadau priodol |
| Ffrwd | Spring(s) | mewn amgylchiadau priodol |
| Allt | Hill (large wooded hill) | mewn amgylchiadau priodol |
| Rhos | Moor; Heath | mewn amgylchiadau priodol |
| Sŵn | Sound(s) or Chime | mewn amgylchiadau priodol |
| Basn | Basin | mewn amgylchiadau priodol |
| Capel | Chapel | mewn amgylchiadau priodol |
| Arglawdd or Torlan | Embankment or Bank (of River) | mewn amgylchiadau priodol |
| Morfa or Cors | Salt marsh or inland marsh | mewn amgylchiadau priodol |
| Gwastadeddau | Levels | mewn amgylchiadau priodol |

4.1.2. Nid yw'r defnydd o Gogledd, De, Dwyrain neu Gorllewin fel rhagenw yn dderbyniol fel rheol. Fodd bynnag cydnabyddir mewn amgylchiadau eithriadol efallai y bydd yn briodol gwneud hynny i hwyluso adnabyddiaeth.

### 4.2 Cyfres Rifo Eiddo

4.2.1. Gweithredir y protocolau canlynol ar gynlluniau datblygu newydd:

- Caiff datblygiadau pengaead a rhai ar raddfa fechan eu rhifo yn olynol gan ddilyn cyfeiriad y cloc. Bydd datblygiadau pengaead hwy unwaith eto'n cael eu rhifo gydag odrifau wedi eu neilltuo i'r chwith ac eilrifau i'r dde

- Lle nad oes cyfres o rifau yn bodoli, mewn ardal wledig yn bennaf, bydd yn briodol neilltuo enwau a gytunir i'r eiddo. Fodd bynnag, caiff pob enw eiddo cymeradwy eu cyfeirio i'r enw stryd swyddogol agosaf er mwyn galluogi'r gwasanaethau brys i ddarganfod eiddo yn gyflym

- Bydd datblygiadau mewn-lenwi (eiddo newydd gaiff eu codi rhwng eiddo sy'n bod yn barod neu ar dir eiddo sy'n bod yn barod) ar stryd sydd wedi ei rifo yn derbyn yr un rhif tŷ â'r eiddo cyn y mewn-lenwi ond gyda'r ôl-ddodiad 'A', 'B'. Er enghraifft 24A, 24B ayb

- Bydd eiddo sydd wedi eu lleoli ar safleoedd cornel yn cael eu rhifo neu eu henwi yn ôl y stryd lle y lleolir ac y cyrchir y prif fynedfa. Ni chaniateir llurgunio enwau neu rifau eiddo er mwyn sicrhau cyfeiriad mwy mawreddog neu er mwyn osgoi cyfeiriad y tybir fod iddo gysylltiadau nas dymunir.

- Gellir rhoi enw ar floc o fflatiau ac ystafelloedd ond bydd pob fflat neu ystafelloedd yn cael eu rhifo yn olynol. Gall y panel enwi gynghori ar enwau o fewn datblygiadau

- Dylai pob eiddo masnachol fod wedi ei rifo neu ei enwi yn unigol ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol lle mai enw'r busnes neu sefydliad yw'r unig fodd o adnabod yr eiddo.

### 4.3 Canolfannau Siopa, Parciau Manwerthu ac Ystadau Diwydiannol

4.3.1. Er mwyn lleihau dryswch, bydd cyfeiriad pob eiddo masnachol yn gyfeiriad cynaliadwy y gellir ei ail-ddefnyddio waeth pa fusnes neu sefydliad sy'n meddiannu'r eiddo. Bydd rhifau uned priodol yn cael eu neilltuo a fydd yn aros yn gyson hyd yn oed os yw'r busnes sy'n meddiannu'r safle yn newid. Dylid dangos rhif yr uned yn amlwg ar bob adeilad.

4.3.2. Canolfannau Siopa, Arcedau neu Rodfeydd Siopa:

Bydd enw yn cael ei gytuno a bydd gofyn i bob siop neu uned o'i fewn gael ei rif unigryw ei hun. Y stryd lle pennir mai yno y ceir prif fynedfa'r adeilad fydd y stryd a gaiff ei defnyddio yn y cyfeiriad swyddogol. Bydd pwyntiau mynediad amgen yn cael eu nodi yn Rhestr Gyfeiriadau Gorfforaethol y Cyngor a'u darparu felly i bartneriaid rhanddeiliol mewnol ac allanol.

4.3.3. Parciau Manwerthu a Chanolfannau Siopa Awyr Agored:

Bydd enw yn cael ei gytuno gyda'r Cyngor ar gyfer y parc neu ganolfan. Bydd y protocolau fel y diffiniwyd uchod. Er enghraifft: Uned A, Sgwâr James, Trelái.

4.3.4. Ystadau Diwydiannol:

Lle bo hynny'n briodol bydd enw yn cael ei roi ar ystâd ddiwydiannol. Bydd gofyn i bob uned neu iard gael rhif unigryw Bydd y protocolau uchod yn weithredol.

4.3.5. Os yw'r ganolfan siopa, arcêd, rhodfa siopa neu Barc Manwerthu yn cynnwys mwy nag un stryd swyddogol, ac y pennir fod angen enwi'r strydoedd hyn, caiff yr eiddo eu rhifo yn ôl y stryd lle ceir eu mynedfeydd. Oherwydd hynny bydd ardal yn cael ei thadogi i gynorthwyo adnabyddiaeth.

4.3.6. Dylid nodi fod enwau Canolfannau Siopa, Parciau Manwerthu ac Ystadau Diwydiannol ayb i ddilyn yr un egwyddorion â'r rhai a amlinellwyd ar gyfer enwau strydoedd neu adeiladau sydd wedi eu nodi yn Adran 2 a 3. Argymhellir y dylid cysylltu â'r tîm Enwi a Rhifo Strydoedd ar yr adeg cynharaf yn y datblygiad fe y gellir cytuno ar gynlluniau enwi a rhifo o'r dechrau'n deg.

### 4.4. Rhoi Cyfeiriadau Newydd ar Waith

4.4.1. Pan fo datblygiad newydd wedi ei gymeradwyo, caiff cyfeiriadau eu creu gan y Cyngor fel 'darpar' endidau. Mae manylion y datblygiad arfaethedig y cael eu rhannu â'r Post Brenhinol sydd yna'n 'dal a chofnodi' y cyfeiriad ar eu cronfa ddata gyfeiriadau 'Heb Eu Codi Eto'. I osgoi unrhyw broblemau â phost yn cael ei yrru at eiddo nad sy'n bod, nid yw'r cyfeiriadau yn cael eu hactifadu tan fod yr eiddo'n cael ei feddiannu neu fod yr eiddo ar fin cael ei gwblhau ac felly'n abl i dderbyn gwasanaethau post.

4.4.2. Wrth i bob eiddo agosáu at orffen bydd gofyn i'r datblygwr hysbysu'r tîm Enwi a Rhifo Strydoedd gan ofyn i'r cyfeiriad gael ei actifadu i'w ddefnyddio. Ar dderbyn hysbysiad bydd cadarnhad y cael ei roi i'r holl wasanaethau mewnol a phartneriaid allanol, gan gynnwys y gwasanaethau brys. Bydd y Post Brenhinol yn cael eu hysbysu er mwyn sicrhau fod y cofnodion priodol yn cael eu symud o'u cronfa ddata 'Heb Eu Codi Eto' i'r Ffeil Cyfeiriad Cod Post (FfCCP) fel y bydd ar gael i'w ddefnyddio a'i gyfeirio'n gyffredinol ar draws y DU.

### 4.5 Ychwanegu Enw at Eiddo â Rhif sy'n Bod yn Barod

4.5.1. Gellir caniatáu neilltuo enw i eiddo lle mae cynllun rhifo eisoes ar waith. Bydd yr enw yn ychwanegol i'r rhif ac nid yn ei ddisodli. Ni chaiff yr enw fod yn un a ddefnyddir ar eiddo arall, neu sydd yn swnio'n debyg i enw eiddo arall yn y cyffiniau. Caiff gwiriad manwl ei gynnal ar dderbyn y cais er mwyn osgoi

dyblygu ac osgoi enwau y gellid eu hystyried fel rhai tramgwyddus, gwahaniaethol neu anweddus, neu sydd yn agored i'w cam-ddehongli.

### 4.6 Ail-enwi Eiddo Sydd ag Enw Eisoes

3.6.1. Gellir newid enw eiddo sydd ag enw eisoes. Ni chaiff yr enw fod yn un a ddefnyddir ar eiddo arall, neu sydd yn swnio'n debyg i enw eiddo arall, yn y cyffiniau. Caiff gwiriad manwl ei gynnal ar dderbyn y cais er mwyn osgoi dyblygu ac osgoi enwau y gellid eu hystyried fel rhai tramgwyddus, gwahaniaethol neu anweddus, neu sydd yn agored i'w cam-ddehongli.

### 4.7 Addasu Adeilad sydd yn Bod yn Barod

4.7.1. Bydd addasu neu rannu ymhellach ar eiddo preswyl sy'n creu un pwynt mynediad lle cyrchir yr holl fflatiau, yn arwain at rifo yn hytrach na disgrifio neu ddefnyddio llythrennau. Er enghraifft, Fflat 1 yn hytrach na Fflat Llawr Cyntaf neu Fflat A.

4.7.2. Bydd eiddo a gaiff ei gyfuno yn defnyddio rhifau'r eiddo gwreiddiol pan ddefnyddir rhifau eiddo. Er enghraifft, bydd cyfuno dau eiddo yn rhif 4 Stryd Fawr a 6 Stryd Fawr neu Uned 1 Ystâd Fasnachu ac Uned 2 Ystâd Fasnachu yn creu'r cyfeiriadau 4-6 Stryd Fawr ac Uned 1-2 Ystâd Fasnachu.

### 4.8 Ailenwi Stryd

4.8.1. Mae newid enw stryd yng Nghaerdydd yn cael ei wneud o dan ddarpariaethau Deddf Iechyd y Cyhoedd 1925, Adran 18 – Newid enw stryd.

4.8.2. Trwy orchymyn gall y Cyngor addasu enw stryd, neu ran o stryd neu gallant roi enw ar stryd, neu ran o stryd, lle nas rhoddwyd enw.

4.8.3. Mewn achos lle bydd gofyn addasu enw stryd sy'n bod yn barod neu y rhoddir enw ar stryd lle nas rhoddwyd enw stryd o'r blaen, fe ymgynghorir â'r preswylwyr.

4.8.4. Pan fo preswylwyr yn gwneud cais i enwi neu ail-enwi stryd sy'n bod yn barod a lle mae dau draean o'r preswylwyr y gytûn, gellir gwneud cais i newid enw stryd. Bydd gofyn i'r cais gael rhesymau penodol a fydd yn cynnwys y dewis o enw newydd. Rhaid i'r enw newydd lynu wrth yr egwyddorion yn y polisi hwn.

### 4.9 Ail-rifo eiddo/adeiladau neu ail-enwi stryd sy'n bod yn barod

4.9.1. Caiff ail-rifo eiddo sy'n bod yn barod ei ystyried pan fo newidiadau yn digwydd sy'n arwain at (neu'n debygol o arwain at) broblemau wrth gyflenwi gwasanaethau neu broblemau a gaiff eu nodi gan y gwasanaethau brys. Gall y broses gymryd amser ac arwain at gost ychwanegol, tarfu ac anghyfleustra i feddianwyr unigol, a dylid ei osgoi lle bynnag y bo modd.

4.9.2. Ar gyfer datblygiadau ar stryd sy'n bod yn barod, gwell defnyddio rhagenwau, neu ail-rifo os mai ond ychydig o eiddo a effeithir, nag ail-rifo stryd cyfan. Fodd

bynnag nid yw hyn o hyd yn bosibl a bydd ail-enwi strydoedd ac ail-rifo eiddo yn ôl disgresiwn y Cyngor.

**4.10 Hysbysiadau ar Wybodaeth am Newid Cyfeiriadau i Bartneriaid Mewnol ac Allanol**

4.10.1 Ar gwblhau cais Enwi neu Rifo Stryd, bydd y Cyngor yn cynnwys y partneriaid canlynol fel rhan o'r broses hysbysu ffurfiol. Nid rhestr ddihysbydd 'mo hon a gellir ychwanegu partneriaid eraill yn ôl y gofyn.

- Holl Wasanaethau Mewnol y Cyngor
- Heddlu De Cymru
- Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru
- Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
- GIG Cymru
- Arolwg Ordnans
- Post Brenhinol
- Asiantaeth y Swyddfa Brisio
- Cofrestrfa Tir
- Dŵr Cymru
- Severn Trent
- Rhestr Tir ac Eiddo Cenedlaethol
- Gwasanaethau Etholiadol
- Open Reach
- Cyfleustodau
- Western Power.

## 5 Rhestr Gyfeiriadau Gorfforaethol Cyngor Caerdydd

5.1.1. Yn y DU defnyddir dwy brif ffynhonnell ar gyfer gwybodaeth am gyfeiriadau.

5.1.2. Fel awdurdod lleol, mae gofyn i'r Cyngor reoli a chynnal Rhestr Strydoedd a Chyfeiriadau Corfforaethol gyda diweddariadau ar newid yn cael eu rhoi i hyb canolog y Rhestr Strydoedd a Chyfeiriadau Cenedlaethol.

5.1.3. Y rhestrau Strydoedd a Chyfeiriadau Corfforaethol, a gaiff eu rheoli a'u cynnal gan yr holl awdurdodau lleol ac unedig ledled Cymru, Lloegr, a'r Alban, yw'r sail ar gyfer darparu a datblygiad parhaus y rhaglen seilwaith cyfeiriadau cenedlaethol ar gyfer Gwledydd Prydain.

5.1.4. Caiff y Rhestr Strydoedd a Chyfeiriadau eu rheoli gan GeoPlace (partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig sector cyhoeddus rhwng y Gymdeithas Lywodraeth Leol a'r Arolwg Ordnans) i roi ffynonellau diffiniol a chyfredol o ddata cyfeiriadau a strydoedd sydd yn eiddo i'r cyhoedd.

5.1.5. Caiff y Rhestrau Cenedlaethol eu cydnabod fel cydrannau allweddol ar gyfer datblygu cofrestr gynhwysfawr o gyfeiriadau cywir a gwybodaeth strydoedd ar gyfer y sector cyhoeddus a phreifat.

Mae’r Rhestrau Corfforaethol yn cydymffurfio â’r Safon Brydeinig BS7666 – Setiau Data Gofodol ar gyfer Cyfeiriadaeth Ddaearyddol Rhan 1 a 2 a’r Canllawiau Confensiwn Nodi Data Cenedlaethol fel y cytunwyd gan yr awdurdodau cynnal dynodedig.

5.1.7. Gall y cyfeiriadau yn y Rhestr Gyfeiriadau Gorfforaethol wahaniaethu oddi wrth y rhai sydd ym meddiant y Post Brenhinol gan fod gofyn iddynt hwy osod seiliau ar gyfer anghenion a gofynion busnes gwahanol.

5.1.8. Mae’r ffeil cyfeiriad Cod Post (FfCCP) wedi ei ddylunio’n benodol i gefnogi gwasanaethau dosbarthu post ac nid yw’r Post Brenhinol yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb nac atebolrwydd ar ddefnyddio'r FfCCP ar gyfer unrhyw ddiben arall neu fwriad arall y tu hwnt i’r gwasanaethau hyn.

5.1.9. Bwriad y Rhestr Gyfeiriadau Gorfforaethol yw hwyluso dosbarthu cywir ar yr holl wasanaethau ac mae wedi ei seilio ar leoliad daearyddol gwirioneddol yr eiddo ond mae hefyd yn cynnwys y dref bostio a ddefnyddir gan y Post Brenhinol.

5.1.10. Ar ben hynny, mae’r Rhestr Gyfeiriadau Gorfforaethol yn cynnwys gwrthrychau nad oes a wnelo nhw â’r post megis tir datblygu ac amaethyddol, coetiroedd, parciau, eglwysi, toiledau cyhoeddus, i enwi ond rhai nad sydd yn y FfCCP.

5.1.11. Rhestr Gyfeiriadau Gorfforaethol y Cyngor yw’r prif gofrestr gyfeiriadau a ddefnyddir wrth gyflenwi gwasanaethau’r Cyngor.

Atodiad 1 – Ffin Canol y Ddinas a Bae Caerdydd

